Polisi Rheoli Perthnasoedd Dysgwyr (Dinasyddiaeth ac Ymddygiad)

Cwmpas a Diben y Polisi

Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Coleg - Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol a bydd yn cefnogi'r Coleg i weithio tuag at ein hysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf. Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rheiny sy'n mynychu Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.

- Bydd ein dysgwyr yn cael eu cefnogi i'w **galluogi** nhw i gyflawni eu **potensial** tra maent yn y Coleg, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.

- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **ddatblygu'n** llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

Diben y polisi hwn yw:

- Sicrhau fframwaith teg a chyson lle mae ymddygiad positif yn cael ei annog a'i gydnabod, a lle gellir adfer materion disgyblu o fewn amgylchedd cefnogol.

- Annog dull Coleg cyfan o ran materion sy'n berthnasol i reoli ymddygiad a hyrwyddo cysylltiadau gweithio da rhwng yr holl staff a myfyrwyr.

- Darparu eglurhad o ran yr ymddygiadau a ddisgwylir gan ddysgwyr a staff.

- Pennu'r egwyddorion a gweithdrefnau a fydd ar waith lle ystyrir bod dysgwyr yn y Coleg wedi ymddwyn mewn modd annerbyniol neu, os ydynt yn methu â chynnal cofnod academaidd boddhaol.

- Pennu'r gweithdrefnau, canllawiau a chefnogaeth y dylid eu defnyddio gan staff wrth ddelio â materion sy'n gysylltiedig â rheoli ymddygiad neu gynnydd academaidd gwael.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr ar bob rhaglen ddysgu waeth beth fo'u dull neu leoliad astudio.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff o fewn y coleg, boed mewn rôl academaidd neu fusnes.
Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl bartneriaid a sefydliadau breiniol.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ymwelwyr y coleg

Datganiadau'r Polisi

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i:

- Ddatblygu gweithdrefnau i amlinellu sut fydd gofynion y polisi yn cael eu bodloni mewn ymarfer a fydd yn cyfateb yn llawn i ddeddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig.
- Amlinellu rolau a chyfrifoldebau fel rhan o'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Hyfforddi holl staff yn y gweithdrefnau cysylltiedig a'r ddeddfwriaeth a chanllawiau sylfaenol; bydd yr hyfforddiant ar lefel addas i'w rôl.
- Hysbysu pawb sy'n cael eu heffeithio gan y polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig o'u cynnwys, ynghyd a'u goblygiadau; bydd hyn yn cynnwys partneriaid a sefydliadau breiniol.
- Darparu'r adnoddau perthnasol er mwyn gallu cyflawni'r gweithdrefnau cysylltiedig yn effeithiol ac effeithlon.
- Cofnodi a monitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi a'i weithdrefnau, gan gyfeirio'n benodol at unrhyw ofynion allanol megis deddfwriaeth, canllawiau etc.
- Adolygu'r data uchod i roi ystyriaeth i effeithiolrwydd y polisi a'i weithdrefnau i gefnogi cynnydd parhaol.

Byddwn yn sicrhau bod dysgwyr ar bob lefel a phob math o ddarpariaeth yn cael eu cyfeirio'n glir at unrhyw sefydliad neu gorff allanol sy'n goruchwylio darpariaeth, safonau, disgwyliadau neu wneud iawn megis corff dyfarnu, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd neu'r Swyddfa Dyfarnwyr AU Annibynnol (nid rhestr gynhwysfawr mo hon).

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) a rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys.

Bydd yr Uwch Dîm Arwain a Gweithredol yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod trefniadau ar gyfer cefnogi a rheoli ymddygiad yn effeithiol ar draws y coleg. Maent yn gyfrifol am ddatblygu trefniadau llywodraethu effeithiol a sicrhau bod polisïau perthnasol wedi'u sefydlu ar draws y coleg.

Mae disgwyl i'r holl staff:

- Sicrhau bod y polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig yn cael eu gweithredu'n effeithiol ar draws y Grŵp.
- Sicrhau bod systemau yn eu lle i gadw cofnodion manwl, cywir a diogel o bryderon ac atgyfeiriadau gan ddefnyddio mecanweithiau cofnodi achosion. (OnTrack)
- Ymgymryd â hyfforddiant priodol a diweddaru gwybodaeth.
- Gweithio mewn modd cydweithredol i sicrhau bod ymddygiad ar draws y coleg yn gyson a chadarn.
- Darllen a deall y polisi a gweithdrefn LRM a deall y gweithdrefnau cofnodi ar gyfer eu sefydliad priodol o fewn y Grŵp.
- Bod yn ymwybodol o arwyddion a symptomau posibl sydd ynghlwm â chamdriniaeth.
- Deall bod ymddygiad yn gyfrifoldeb i bawb.

Disgwylir i'r holl ddysgwyr:

- Fynychu sesiynau sefydlu/tiwtorial i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion a godir ynddo.
- Ymddwyn mewn modd sy'n cefnogi'r Polisi, gan gynnwys codi unrhyw bryderon gyda staff addysgu neu gefnogi i'w galluogi nhw i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

Deddfwriaeth ac Arweiniad

Dim

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, mae Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) yn cael ei gynnal ar gyfer y polisi hwn.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio naill ai'r iaith Gymraeg neu'r iaith Saesneg. Mae'r cyfrifoldeb sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn unol â hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg ac o ganlyniad yn ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd.

Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Does dim yn gysylltiedig â'r polisi hwn.

Gweithdrefnau Cysylltiedig

- Gweithdrefnau Gweithredol Perthnasoedd Dysgwyr
- Bwlio ac Aflonyddu
- Addas i Astudio
- Camddefnyddio Sylweddau
- Iechyd a Diogelwch
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Diogelu
- Cwynion Myfyrwyr

Lleoliad a Mynediad at y Polisi

Mae hwn ar gael ar y wefan/ mewnrwyd staff/ Moodle, ac efallai na fydd yn gyfredol os yw wedi'i argraffu.

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Dyddiad cymeradwyo:	**01/06/2012**	**Rheolwr Atebol:**	**Deon Taith y Dysgwr**
Cymeradwywyd gan:	**CQSA**	**Arweinydd Gweithredol:**	**Dirprwy Bennaeth**
Dyddiad Adolygu Nesaf:	**20/06/2022**	**Hygyrch i Fyfyrwyr:**	**Ydy**